



Unigolion mewn perygl o gael eu denu i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol – Canllaw Atal

Mawrth 2015

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Beth yw Atal?	4
Diben y Ddogfen hon	5
Nodi Risg	7
Troseddolrwydd	8
Gallu	9
Rhwydweithiau	10
Hunaniaeth	12
Ymyraethau	15
Ymyraethau Presennol	15
Datblygu Ymagweddau Newydd	17
Casgliad	18
Atodiad: Rhaglenni Ymyrraeth	19

The first part of the document discusses the importance of maintaining accurate records of all transactions. It emphasizes that every receipt, invoice, and bill should be properly filed and indexed for easy retrieval. This not only helps in tracking expenses but also ensures compliance with tax regulations.

Next, the document outlines the process of reconciling bank statements with the company's accounting records. It stresses the need to identify and resolve any discrepancies between the two sources of data. Regular reconciliation is crucial for maintaining the integrity of the financial statements.

The following section addresses the issue of budgeting and cost control. It provides a framework for setting realistic budgets and monitoring actual performance against these targets. Key areas of focus include identifying cost-saving opportunities and implementing effective controls to prevent overspending.

In the final part of the document, the author discusses the importance of regular financial reporting. It highlights the need for timely and accurate reports to management and stakeholders. This information is essential for making informed decisions and ensuring the long-term success of the organization.

Cyflwyniad

1.1 Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn fygythiad i'n diogelwch cenedlaethol ac i'n cymunedau lleol.¹

1.2 Mae'n effeithio ar bob un ohonom ac yn cynnwys: masnachu a delio cyffuriau, pobl, arfau a nwyddau ffug; lladrata a dwyn soffistigedig; twyll, gwyngalchu arian a mathau eraill o droseddau ariannol; a throseddau seiber. Mae hefyd yn cynnwys Caethwasiaeth Modern a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

1.3 Mae gwasanaethau gorfodi'r gyfraith yn amcangyfrif bod dros 39,000 o bobl yn ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol yn y wlad hon, yn gweithredu mewn dros 5,800 o grwpiau.² Rydym yn amcangyfrif bod cost gymdeithasol ac economaidd troseddau cyfundrefnol yn o leiaf £24 biliwn y flwyddyn ac yn debygol o fod yn llawer mwy.³

1.4 Mae'r Llywodraeth, gorfodi'r gyfraith a phartneriaid, yn lleol a chenedlaethol, yn cydweithio i dacio'r bygythiad hwn. Lansiwyd sefydliad gorfodi'r gyfraith newydd, yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA), yn 2013 i arwain y frwydr i leihau troseddau difrifol a chyfundrefnol. Ar yr un pryd fe gyhoeddodd y Llywodraeth strategaeth newydd gyda'r nos o leihau'r lefel o droseddau difrifol a chyfundrefnol sy'n effeithio ar y Deyrnas Unedig a'i fuddiannau yn sylweddol.⁴

1.5 Mae yna bedwar amcan i'r Strategaeth:

- ERLID: erlyn ac amharu ar bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau troseddol difrifol a threfnedig;
- ATAL: atal pobl rhag ymwneud â throseddau difrifol a threfnedig;
- AMDDIFFYN: cynyddu amddiffyniad yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol; a
- PARATOI: lleihau effaith y troseddau hyn pan fyddant yn digwydd.

1.6 Mae'r Strategaeth yn cydnabod na fyddwn yn gallu taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol trwy amharu ac erlyn yn unig. Rydym hefyd angen stopio pobl rhag cael eu denu i neu barhau i fod yn rhan o droseddau difrifol a chyfundrefnol. Dyma yw nod yr amcan Atal y mae'r canllaw hwn yn ei drafod.

1.7 Diben y ddogfen hon yw cefnogi partneriaid lleol i ddeall llwybrau i droseddau difrifol ac i sefydlu ymyraethau Atal ar gyfer unigolion mewn perygl.

1.8 Mae'r canllaw hwn yn fan cychwyn sy'n sefydlu ein dealltwriaeth bresennol o'r ffactorau risg, yn ogystal ag enghreifftiau o ymyraethau all fod yn llwyddiannus o ran dargyfeirio unigolion.

¹ Llywodraeth EM (2010) A Strong Britain in an Age of Uncertainty: The National Security Strategy https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/61936/national-security-strategy.pdf

² Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau heddlu a gorfodi'r gyfraith y Deyrnas Unedig, wedi ei gasglu gan yr NCA (Medi 2014)

³ Y Swyddfa Gartref (2013) Understanding Organised Crime: Estimating the Scale and the Social and Economic Costs <https://www.gov.uk/government/publications/understanding-organised-crime-estimating-the-scale-and-the-social-and-economic-costs>

⁴ Y Swyddfa Gartref (2013) Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310274/WelshSeriousOrganisedCrimeStrategyPamphlet.pdf

Beth yw Atal?

1.9 Mae atal yn golygu rhwystro pobl rhag cymryd rhan mewn unrhyw fath o droseddau difrifol a chyfundrefnol, a rhwystro troseddwy cyfundrefnol presennol rhag parhau.

1.10 Mae atal yn cynnwys ystod eang o ymagweddau ac ymyraethau lleol, a gall gynnwys:

- defnyddio ymyraethau lleol presennol megis rhaglenni Teuluoedd Cythryblus⁵ neu ymyraethau gangiau i ddargyfeirio neu gefnogi pobl sydd mewn perygl o gymryd rhan;
- codi ymwybyddiaeth am realiti a chanlyniadau troseddau difrifol a chyfundrefnol ymysg grwpiau dan risg, megis pobl ifanc neu grwpiau proffesiynol (er enghraifft, cyfreithwyr neu gyfrifyddion), allai gael eu targedu gan grwpiau troseddau cyfundrefnol;
- lleihau'r galw ar gyfer y nwyddau a gwasanaethau mae troseddwr cyfundrefnol yn eu darparu, yn cynnwys trwy Gaethwasiaeth Modern, megis camfanteisio rhywiol, nwyddau ffug neu gyffuriau anghyfreithlon;
- defnydd targedig o orchmynion ategol megis Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol, gwaharddebion gangiau a gorchmynion sifil eraill yn erbyn troseddwy newydd neu bresennol; a
- rheolaeth effeithiol o droseddwy i adsefydlu a rheoli'r troseddwy mwyaf peryglus a'r risgiau maent yn cyflwyno mewn carchardai ac yn y gymuned.

1.11 Dylid datblygu dulliau Atal lleol parthed nifer o egwyddorion:

- yr holl bartneriaid perthnasol yn cydweithio;
- datblygu ymateb penodol i broblemau lleol; a
- gwneud defnydd gwell o raglenni presennol.

1.12 Mae angen i ddulliau Atal lleol fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o:

- lwybrau i droseddau difrifol a chyfundrefnol;
- nodweddion y boblogaeth troseddwy difrifol a chyfundrefnol sy'n datblygu; ac
- ymyraethau a bylchau presennol.

⁵ <https://www.gov.uk/government/policies/helping-troubled-families-turn-their-lives-around>

Diben y ddogfen hon

1.13 Diben y ddogfen hon yw cefnogi partneriaid i:

- wella eu dealltwriaeth o lwybrau troseddau cyfundrefnol lleol;
- nodi unigolion i'w cyfeirio at raglenni ac ymyraethau priodol;
- ystyried sut gall ymyraethau presennol neu newydd atal unigolion rhag cael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol;
- hysbysu trafodaethau comisiynu; a
- chyfrannu i gynhyrchu a chyflawni eu Proffil Lleol troseddau difrifol a chyfundrefnol.

1.14 Mae amrediad eang o sefydliadau yn bwysig i Atal troseddau difrifol a chyfundrefnol, a gallant nodi neu ymyrryd gydag unigolion mewn perygl.

1.15 Gall sefydliadau yng Nghymru a Lloegr nodi unigolion mewn perygl, yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol (yn cynnwys gwasanaethau plant, gwasanaethau cymdeithasol, timau Teuluoedd, timau Diogelwch Cymunedol a thimau Trwyddedu a Safonau Masnach);
- gwasanaethau iechyd;
- heddlu ac asiantau gorfodi'r gyfraith;
- Gwasanaethau Profiant a Throseddau Ieuenctid;
- carchardai;
- grwpiau gwirfoddol ac elusenol; ac
- ysgolion, colegau a phrifysgolion.

1.16 Gellir cyfeirio pobl sydd mewn perygl o ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol i ystod eang o bartneriaethau, yn cynnwys:

- Paneli Diogelu Plant ac Oedolion;
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol;
- Partneriaethau Gangiau;

- darparwyr gwasanaeth prawf (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yng Nghymru a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ble dynodir hynny yn rhan o Orchymyn Llys neu amod i drwydded);
- Rhaglenni teuluoedd (ble gellir delio ag unigolyn trwy ymyraeth teulu cyfan);
- Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH); a
- threfniadau Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM).

Proffiliau a Phartneriaethau Lleol Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiliaid yn arwain datblygiad Proffiliau Lleol troseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae Proffiliau Lleol yn darparu dealltwriaeth gyffredin o'r bygythiad lleol ymysg partneriaid ac yn sail i ymatebion a chynlluniau gweithredu lleol. Bydd Proffiliau Lleol yn ystyried ysgogwyr a llwybrau troseddau difrifol a chyfundrefnol. I lwyddo, bydd angen Proffiliau Lleol angen mewnbyn gan bartneriaid nad ydynt yn rhai gorfodi'r gyfraith, a fydd yn aml wedi meddu ar ddealltwriaeth dda o lwybrau lleol i droseddau difrifol a chyfundrefnol.

Nod y ddogfen hon yw cefnogi gwaith ar Broffiliau Lleol, a dylid ei darllen ar y cyd â'r canllaw ar Broffiliau Lleol troseddau difrifol a chyfundrefnol (ar gael ar-lein).⁶

Yn ogystal, mae partneriaethau amlasiantaethol lleol i gydlynu gweithredu lleol yn erbyn troseddau cyfundrefnol eisoes wedi eu sefydlu mewn nifer o ardaloedd. Mae strwythurau'n amrywio ar draws y wlad, ac efallai y byddant yn grŵp sydd eisoes yn bodoli (fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol) neu grŵp sydd newydd ffurfio.

⁶ Y Swyddfa Gartref (2014) Serious and Organised Crime Local Profiles: A Guide https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371602/Serious_and_Organised_Crime_local_profiles.pdf

Ffactorau i asesu'r risg o ddenu i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol



Nodi Risg

2.1 Mae ymchwil academiaidd a gwybodaeth gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi nodi nifer o ffactorau allai greu mwy o berygl y bydd rhywun yn cael eu ddenu i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r ffactorau risg wedi eu strwythuro i bedwar categori:

- Troseddolrwydd – patrymau a thuediadau troseddu;
- Gallu – sgiliau arbenigol, mynediad neu safleoedd proffesiynol;
- Rhwydweithiau – mynediad i gyd-droseddwyr trwy rwydweithiau teuluol, cyfoedion neu broffesiynol; a
- Hunaniaeth – ffactorau magwraeth a ffordd o fyw.

2.2 Mae rhai unigolion yn cael eu denu yn ymwybodol i droseddolrwydd; gall eraill, megis dioddefwyr Caethwasiaeth Modern, gael eu denu a pharatoi yn ddjarwybod iddynt ac yna camfanteisio arnynt. Mae'r ffactorau hyn, o'u gadael heb osteg, yn galluogi i'r 'cyflenwad' o droseddwyr difrifol a chyfundrefnol gael ei ailgyflenwi neu ôl-lenwi er gwaethaf ymyraethau gan yr heddlu a gorfodi'r gyfraith. Yna bydd rhai yn mynd ymlaen i aildroseddu yn y carchar ac wedi eu rhyddhau (gweler ffigwr 1 isod).

2.3 Credwn fod nodi cynnar, gan ddilyn hyn gyda gweithredu lliniarol, yn gallu atal rhai unigolion rhag cael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol, ac yn atal aildroseddu.

2.4 Nid yw'r ffactorau hyn yn hollgynhwysol. Nid oes un llwybr unigol amlwg i droseddolrwydd cyfundrefnol, yn union fel nad oes un llwybr unigol i droseddau eraill. Ni ddylid tybio y bydd y nodweddion a phrofiadau hyn yn arwain o reidrwydd at gynnwys unigolion mewn troseddau. Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn cynnwys amrywiaeth o droseddau, a gall llwybrau amrywio yn ddibynnol ar y math o drosedd.

2.5 Rydym yn ymwybodol y gall rhai unigolion fod â chysylltiad dwys â droseddau difrifol a chyfundrefnol, ac nad yw ymyraethau Atal yn unig yn debygol o'u rhwystro rhag aildroseddu. Os felly, bydd yn fwy priodol i ddefnyddio gweithgareddau amharu Erid a thechnegau rheoli troseddwyr.


2.6 Mae'r canllaw hwn yn fan cychwyn i ddatblygu ein dealltwriaeth o lwybrau i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda phartneriaid i adeiladu ein sylfaen wybodaeth yn y maes hwn, yn arbennig o ran llwybrau i droseddau seiber a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Ffigwr 1: 'stoc' a 'llif' o droseddwyr troseddau difrifol a chyfundrefnol

Unigolion mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol



- Unigolion sy'n cymryd rhan mewn **troseddolrwydd**
- Unigolion gyda mynediad i **rwydweithiau** troseddol
- Unigolion gyda **galluoedd** penodol
- Unigolion yn arddangos ffactorau **hunaniaeth** penodol



Stoc o droseddwyr troseddau difrifol a chyfundrefnol sy'n troseddu yn y gymuned

Stoc o droseddwyr troseddau difrifol a chyfundrefnol sy'n aildroseddu yn y carchar

Stoc o droseddwyr troseddau difrifol a chyfundrefnol dan oruchwyliaeth sy'n aildroseddu yn y gymuned

Troseddolrwydd


Gallai unigolion sy'n arddangos patrymau troseddu penodol fod mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol.

Troseddu Cyson Cynnar

2.7 Awgryma ymchwil y Swyddfa Gartref bod gan gyfran sylweddol o droseddwrwyr cyfundrefnol hanes o droseddu cyson yn ifanc, gyda nifer yn derbyn cosb droseddol cyn eu bod yn 18 oed.⁷ Mae asiantau gorfodi'r gyfraith yn amcangyfrif bod ychydig dan 25% o'r holl droseddwrwyr cyfundrefnol yn iau na 25 oed (gweler ffigur 2). Gall profiadau troseddol cynnar arwain at gysylltiad parhaus wrth dyfu yn oedolion a gwaethgiad i droseddau difrifol a chyfundrefnol.



Ffigur 2: dadansoddiad oedran unigolion sy'n ymwneud â throseddau cyfundrefnol⁸



bregus gael eu paratoi gan gangiau troseddol, weithiau gyda'r addewid neu 'wobr' o anrhegion am gyflawni tasgau troseddol. Yna maent wedi eu dal, ac fe gamfanteisir arnynt ac mewn sawl achos defnyddir trais i ddwysáu eu cysylltiad. Mae nifer o unigolion yn datgysylltu eu hunain oddi wrth weithgaredd gangiau wrth ddod yn oedolion. Fodd bynnag, gall ymwneud â gangiau ddarparu'r sgiliau a rhwydweithiau troseddol i gymryd rhan mewn troseddau mwy difrifol a chyfundrefnol.

'Simon'

Dechreuodd 'Simon' gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau stryd yn rhan o gang. Cafodd ei recriwtio gan grŵp troseddau cyfundrefnol lleol, gan gymryd lle aelod oedd wedi cael ei arestio. Dwysaodd gweithgareddau troseddol Simon ac fe'i cafwyd yn euog o fewnforio a chyflenwi cyffuriau a gwyngalchu arian. Roedd **troseddu cyson cynnar** ac **ymwneud â gangiau** yn ffactorau yn llwybr Simon i droseddau cyfundrefnol.

Troseddu Difrifol Hwyr

2.12 Nid yw rhai unigolion yn dechrau gweithredu'n droseddol nes eu bod yn oedolion. Awgryma ymchwil y Swyddfa Gartref bod cyfran o droseddwrwyr difrifol a chyfundrefnol yn oedolion heb unrhyw hanes blaenorol o droseddu, gyda throseddau cyntaf hysbys sy'n cynnwys: meddiant o a chyflenwi cyffuriau dosbarth A a B; troseddau meddiangar; cuddio elw o droseddau; a throseddau rhyw.⁹ Yn ôl un astudiaeth o 2014 mae'r rhai gydag un euogfarn am wyllo neu ddsbarthu delweddau anwedus o blant yn llai tebygol na throseddwrwyr rhyw eraill i fod â dedfryd rhyw neu nad yw'n ymwneud â rhyw flaenorol.¹⁰



Ymwneud â Gangiau

2.8 Mae yna orgyffwrdd rhwng gangiau stryd a gangiau troseddau cyfundrefnol mewn rhai ardaloedd lleol. Gall troseddwrwyr cyfundrefnol ddefnyddio gangiau i gludo cyffuriau a delio cyffuriau ar y stryd. Mae yna dystiolaeth gynyddol o gangiau stryd yn ymwneud â chamfanteisio ar blant ac oedolion bregus (yn cynnwys camfanteisio rhywiol). Gall plant ac oedolion



⁷ Dangosodd dadansoddiad o 4,112 o droseddwrwyr i 57% dderbyn cosb droseddol cyn eu bod yn 18 oed. Y Swyddfa Gartref (2013) Understanding Criminal Careers in Organised Crime <https://www.gov.uk/government/publications/understanding-criminal-careers-in-organised-crime>

⁸ Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau heddlu a gorfodi'r gyfraith y Deyrnas Unedig, wedi ei gasglu gan yr NCA (Medi 2014) yn gysylltiedig â 39,273 o unigolion. Mae'r ystadegau a gyflwynwyd yn eithrio 2,031 o unigolion ble na chofnodwyd data oedran

⁹ Y Swyddfa Gartref (2013) Understanding Criminal Careers in Organised Crime

¹⁰ Howard, Barnett a Mann (2014) Specialization in and within Sexual Offending in England and Wales

Gallu

Gall unigolion gyda sgiliau arbenigol a mynediad neu mewn proffesiynau penodol gael eu targedu, recriwtio neu lygru i hwyluso troseddau difrifol a chyfundrefnol.

Sgiliau Technegol Arbenigol



2.14 Mae gan rai unigolion wybodaeth a sgiliau arbenigol mewn TG a chyfathrebu allai eu galluogi i gyflawni troseddau difrifol. Mae'n debygol y bydd troseddwr seiber wedi cael rhywfaint o hyfforddiant TG ffurfiol, gyda graddedigion cyfrifiadurol yn cael eu denu i droseddau seiber,¹¹ er y bydd rhai wedi dysgu'r sgiliau eu hunain trwy gymunedau ar-lein. Gallai ymddygiadau cynnar gynnwys addasiadau i gemau neu feddalwedd a rhannu ar-lein. Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod y nifer o achosion o dwyll gan oedolion ifanc yn cynyddu.¹²

cyflenwi arfau a ffrwydrion. Gellir targedu rhai unigolion i ddarparu mynediad o'r tu fewn i gyfleusterau diogel megis carchardai a chyfleusterau storio neu fynediad ar draws ffiniau rhyngwladol.

Sgiliau Proffesiynol



2.17 Mae nifer o droseddwr cyfundrefnol yn ddibynnol ar unigolion sy'n gweithio mewn cyfrifyddiaeth, bancio, caffael a'r gyfraith. Mae unigolion mewn proffesiynau o'r fath yn gysylltiedig â'r mwyafrif o ymchwiliadau'r Swyddfa Twyll Difrifol. Mae unigolion o'r fath yn 'alluogwr proffesiynol' ar gyfer troseddau cyfundrefnol a gallant fod mewn perygl o gael eu recriwtio neu lygru gan grwpiau troseddau cyfundrefnol.¹³ Mae ymchwiliadau gan yr heddlu wedi cynnwys unigolion mewn proffesiynau cyfreithiol ac ariannol sydd wedi eu denu i lygredd gan eu cleientiaid.

Sgiliau Troseddol Arbenigol



2.15 Mae unigolion gyda sgiliau arbenigol eraill y gellir bod galw amdanynt gan droseddwr cyfundrefnol mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Efallai y bydd gan rai sgiliau ddefnydd deuol ar gyfer dibenion cyfreithlon ac anghyfreithlon, megis peirianeg, deifio proffesiynol a hedfan. Bydd gan sgiliau eraill ddefnydd troseddol yn unig, megis ffugiad, dynwarediad, cuddiad, cribddeiliaeth, lladrad, blacmel a gwyliadwriaeth gudd a chroes.

'Misha'

Roedd 'Misha' yn gyfreithiwr benywaidd heb unrhyw gollfarnau blaenorol. Cafodd ei denu i droseddu cyfundrefnol trwy berthynas gydag aelod o grŵp troseddau cyfundrefnol oedd â chysylltiadau â Liberia. Cafodd Misha ei pherswadio i ymgeisio am forgeisi yn defnyddio data ffug a hwylusodd dwyll gwerth £2.3 miliwn. O ganlyniad, fe orfodwyd Misha gan ail grŵp troseddau cyfundrefnol, yr oedd ei phartner yn ymwybodol ohonynt, i ôl-ddyddio dogfennaeth eiddo, gyda thrydydd grŵp yn ei defnyddio i hwyluso mewn fudo anghyfreithlon trwy ffugio dogfennau hunaniaeth. Cafodd ei ddedfrydu i 5 mlynedd am droseddau twyll. Roedd **perthynas agos** Misha gyda throseddwr a'i **sgiliau proffesiynol** yn ffactorau allweddol a'i denodd i droseddau cyfundrefnol.

Mynediad Troseddol



2.16 Gallai unigolion gyda mynediad at wybodaeth, nwyddau a gwasanaethau penodol gael eu targedu a'u llygru i gyflawni neu alluogi troseddau difrifol. Gallai troseddwr cyfundrefnol geisio cael gwybodaeth gan unigolion yn yr heddlu neu orfodi'r gyfraith (megis ffocws presennol ymgyrch gorfodi'r gyfraith) a gan weithwyr sector cyhoeddus a phreifat (megis gwybodaeth am gaffael). Gallai deiliaid neu ddelwyr arfau cofrestredig a phersonél milwrol sy'n gwasanaethu neu flaenorol gael eu targedu gan gangiau troseddol er mwyn

¹¹ Cyfarwyddwr Europol: 'Top Computer Graduates are being Lured into Cybercrime', The Independent (29 Rhagfyr 2014) <http://www.independent.co.uk/news/uk/crime/director-of-europol-top-computer-graduates-are-being-lured-into-cybercrime-9948990.html>

¹² KPMG Fraud Barometer (2014) <http://www.kpmg.com/uk/fightingfraud>

Rhwydweithiau

Gallai unigolion sydd â mynediad i rwydweithiau troseddol trwy gysylltiadau teuluol, cyfeillgarwch, perthnasau agos a phartneriaid (trwy fusnes neu'r carchar), fod mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol.

Teulu

2.18 Mae unigolion gydag aelod o'r teulu sydd eisoes yn gysylltiedig â throseddau difrifol a chyfundrefnol mewn perygl o gael eu denu i droseddolrwydd. Gall teuluoedd gael cryn ddylanwad dros berthnasau a gweithgareddau unigolyn. Mae rhai ymchwiliadau wedi dangos bod rhieni yn cynnwys eu plant eu hunain mewn masnachu mewn cyffuriau. Mae rhai troseddwy cyfundrefnol yn hysbys i'r rhaglen Teuluoedd Cythryblus, ac mae cydlynwyr Teuluoedd Cythryblus yn gweithio gyda'r heddlu ar ymyraethau effeithiol ar gyfer aelodau o'r teulu sydd mewn perygl.



gyfraith wedi dangos bod menywod wedi eu perswadio i storio neu gludo cyffuriau, arfau ac elw troseddol ar ran eu gwŷr neu gariadon. Mae unigolion eraill wedi cefnogi troseddau difrifol a chyfundrefnol a gyflawnwyd gan eu partner o wirfodd.

Cyd-droseddwy

2.20 Gall cysylltiadau gyda throseddwy cyfundrefnol, yn arbennig trwy grwpiau cyfoedion, cyfeillgarwch, cydweithwyr neu gleientiaid, ddenu unigolion i droseddau cyfundrefnol yn yr un modd â theulu neu berthnasau agos. Mae nifer o berthnasau troseddol wedi eu gwreiddio yn y gorffennol, wedi eu sefydlu yn ystod plentyndod. Mae unigolion sy'n byw yn agos at, neu'n mynychu lleoliadau a reolir gan, droseddwy cyfundrefnol dan risg.



2.21 Gallai clymau ethnigrwydd neu gymuned hefyd ddenu unigolion i droseddau cyfundrefnol; awgryma gorfodi'r gyfraith bod y mwyafrif helaeth o droseddwy cyfundrefnol yn wyn (63%), ac fe gofnodir lleiafrif arwyddocaol i fod yn ddu (19%) neu o ethnigrwydd Asiaidd (17%) (gweler ffigur 4 trosodd).

2.22 Mae unigolion sydd â pherthynas gymdeithasol neu fusnes gyda throseddwy cyfundrefnol wedi eu lleoli dramor mewn perygl, yn arbennig y rhai sydd â chysylltiadau â gwledydd ffynhonnell neu groesiad ar gyfer nwyddau anghyfreithlon i'r Deyrnas Unedig megis: yr Iseldiroedd, pwynt croesiad allweddol ar gyfer chyffuriau ac arfau anghyfreithlon; Twrci a Phacistan, gwledydd croesiad allweddol ar gyfer heroin i'r Deyrnas Unedig; Gorllewin Affrica, rhanbarth croesiad ar gyfer cocên a masnachu mewn pobl, twyll a throseddau seiber; a Dwyrain Ewrop ar gyfer troseddu cyffuriau, tybaco a mewnfudo cyfundrefnol.

'Paul'

Defnyddiodd tad 'Paul', peilot cymwysedig gyda buddiannau busnes masnachol, ei sgiliau ac adnoddau i gefnogi ymgyrch masnachu cyffuriau rhyngwladol. Yna roedd mam a thad Paul yn gwyngalchu'r elw troseddol. Dechreuodd Paul gymryd gwersi hedfan yr oedd ei dad yn talu amdanynt, i alluogi Paul i gael cymhwyster fel peilot.

Cafwyd tad Paul yn euog o droseddau masnachu cyffuriau, gan dderbyn dedfryd o 18 mlynedd, ac fe garcharwyd ei fam am 18 mis am wyngalchu arian. Roedd cysylltiadau troseddol presennol **teulu** Paul, ynghyd â gallu ei dad i droi ei alluoedd peilotio cyfreithlon yn **sgil droseddol arbenigol**, yn creu perygl y byddai Paul yn cael ei ddenu i droseddu cyfundrefnol.

Perthnasau Agos


2.19 Awgryma amcangyfrifon gorfodi'r gyfraith bod y mwyafrif helaeth o droseddwy cyfundrefnol yn wrywaidd (gweler ffigur 3, drosodd); mae yna berygl y gall menywod a merched ifanc gael eu denu i droseddau cyfundrefnol trwy berthnasau agos. Mae ymchwiliadau gorfodi'r



Ffigwr 3: dadansoddiad rhyw unigolion sy'n ymwneud â throeddau cyfundrefnol¹⁴



Ffigwr 4: dadansoddiad ethnig unigolion sy'n ymwneud â throeddau cyfundrefnol¹⁵



Carchar

2.23 Mae ymchwil academiaidd wedi dangos y gallai cysylltiadau a ffurfi mewn carchardai gyfrannu at ffurfio rhwydweithiau troseddau cyfundrefnol. Yn ogystal â ffurfio cysylltiadau rhwng troseddwr cyfundrefnol presennol, gall amgylchedd y carchar alluogi i droseddwr cyfundrefnol rannu profiadau a sgiliau. Gall carchar hefyd fod yn fodd i droseddwr nad ydynt eto'n cymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol i greu cysylltiadau gyda'r rhai sydd eisoes ynghlwm,¹⁶ er nad yw pawb sydd wedi eu carcharu am droseddau yn ymwneud â throeddau difrifol a chyfundrefnol yn aildroseddu wedi eu ryddhau.



'Jason'

Roedd 'Jason' yn fyfyrwr TG oedd wedi colli Sieciau Teithiwr dramor. Wedi i'w gais am iawndal gael ei wrthod, daeth o hyd i wefan oedd yn difrio'r cwmni yswiriant ac yn cynnig cyngor a gwybodaeth ar sut i gyflawni twyll cardiau credyd. Roedd yr elw o weithgaredd twyllodrus Jason yn ddigon o incwm iddo allu prynu eiddo a rhoi arian i'w deulu a ffrindiau. Cafodd gydnabyddiaeth gan ei gyfoedion ar-lein a'i dyrchafodd i fod yn gymedrolwr ar y safle. Cafodd ei ddedfrydu i 4 blynedd o garchar ac mae wedi bod yn destun Gorchymyn Atal Troseddau Difrifol ers ei ryddhau. Roedd cael **sgiliau technegol arbenigol** mewn TG a **phartneriaid troseddol**, yn cynnwys **ar-lein**, yn ffactorau allweddol a ddenodd Jason i droseddau difrifol.

Ar-lein

2.24 Gall rhwydweithiau a chymunedau ar-lein, ble gall unigolion ddarparu cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i gyd-ddefnyddwyr, ddarparu llwybr i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Ystyrir hyn i fod yn arbennig o berthnasol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a throeddau seiber. Mae troseddwr yn defnyddio nifer o lwyfannau ac amgylcheddau ar-lein i gael mynediad at ddelweddau anweddus o blant. Dengys astudiaethau bod cyfran o'r rhai sy'n gweld ac yn rhannu delweddau anweddus o blant hefyd yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol trwy gyswllt. Er bod llwybrau mynediad at ddelweddau anweddus o blant yn amrywio o ran soffistigeiddrwydd, ni nodwyd cyswllt uniongyrchol rhwng llwybrau penodol a risg cynyddol o droseddau rhyw yn erbyn plant trwy gyswllt. Amcangyfrifa'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) bod tua 50,000 o unigolion yn ymwneud â rhannu delweddau anweddus o blant yn y Deyrnas Unedig.



¹³ Middleton, D. J. a Levi, M. (2005) The Role of Solicitors in Facilitating 'Organized Crime': Situational Crime Opportunities and their Regulation

¹⁴ Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau heddlu a gorfodi'r gyfraith y Deyrnas Unedig, wedi ei gasglu gan yr NCA (Medi 2014) yn gysylltiedig â 39,273 o unigolion. Nid oedd yr ystadegau a gyflwynwyd yn cynnwys 6,019 o unigolion (15% o gyfanswm yr unigolion yn gysylltiedig â throeddau cyfundrefnol) ble na chofnodwyd rhyw'r unigolyn

¹⁵ Gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau heddlu a gorfodi'r gyfraith y Deyrnas Unedig, wedi ei gasglu gan yr NCA (Medi 2014) yn gysylltiedig â 39,273 o unigolion. Nid yw'r ystadegau a gyflwynwyd yn cynnwys 882 o unigolion ble cofnodwyd ethnigrwydd fel anhysbys a 12,692 ble na chofnodwyd ethnigrwydd (3% a 32% yn y drefn honno o gyfanswm y nifer o unigolion yn gysylltiedig â throeddau cyfundrefnol). Cofnodwyd categorïau a ddangosir fel 'De-ddwyrain Asia' a 'Canol Asia' fel 'Tseineaidd, Japaneaidd neu Dde-ddwyrain Asia' ac 'Asiaidd' yn y drefn honno

Hunaniaeth

Gall magwraeth a ffordd o fyw unigolyn gael effaith ddwys ar ei hunaniaeth, sydd yn ei dro yn gallu cynyddu'r risg y bydd yr unigolyn yn cael ei ddenu i droseddau difrifol a chyfundrefnol.

Teimlad o Berthyn

2.25 Gall aelodaeth o isddiwylliant, megis gang neu grŵp troseddau cyfundrefnol, ddarparu teimlad cryf o berthyn i unigolion sydd wedi cael magwraeth gythryblus. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal neu blant a phobl ifanc sy'n hysbys i weithwyr cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Troseddau leuenticid mewn perygl arbennig. Gall unigolion gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol er mwyn cael teimlad o berthyn i'w teulu, ffrindiau, neu hyd yn oed gymuned.



Cyfnodau Trosiant

2.28 Gall effaith newid ffordd o fyw ar unigolyn bregus, megis chwalu teulu, camddefnydd o alcohol a diweithdra, greu agoriad i ymgysylltu â throseddau.²⁰ Efallai bod rhai unigolion sydd wedi dechrau cymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol wedi cael magwraeth aflonyddgar, megis chwalu teulu, rhiant yn defnyddio cyffuriau, neu wedi byw mewn cymdogaethau gyda chyfraddau troseddu uchel.²¹ Gall rhai pobl ifanc fod mewn cyswllt presennol neu flaenorol gyda gwasanaethau plant. Mae rhai oedolion mewn proffesiynau wedi eu denu i droseddau cyfundrefnol o ganlyniad i fethiant busnes.



Dioddefwyr Camfanteisio

2.26 Mewn rhai achosion, gellir camfanteisio ar unigolion i'w hachosi i gyflawni troseddau cyfundrefnol eu hunain. Mae pobl ifanc wedi eu gorfodi i ddsbarthu cyffuriau a thrin arfau ar gyfer gangiau a grwpiau troseddau cyfundrefnol.



2.27 Gellir camfanteisio ar rai unigolion trwy Gaethwasiaeth Modern; yn aml bydd dioddefwyr dan bwysau i gaethiwed trwy ddyled neu gamfanteisio llafur (yn cynnwys camfanteisio troseddol) ac yn cael eu gorfodi i gyflawni trosedd, megis twyll budd-daliadau, tyfu canabis¹⁷ a masnachu mewn cyffuriau.¹⁸ Yn 2013, adroddodd tuag un traean o ddioddefwyr Caethwasiaeth Modern eu bod wedi eu gorfodi i gyflawni twyll budd-daliadau neu ariannol, tra bod tua un o bob pump wedi eu gorfodi i weithio ar ffermydd canabis.¹⁹

Agweddau 'Ffatriol i Droseddu'

2.29 Gallai ffactorau cymdeithasol a seicolegol arwain at ddatblygu agweddau 'ffatriol i droseddu', ble nad yw unigolyn bellach yn ystyried troseddolrwydd fel rhywbeth anghyfreithlon. Dangosodd adroddiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder y gall fod cyfran arwyddocaol o unigolion sy'n cefnogi, neu o leiaf yn teimlo nad achosir unrhyw niwed trwy weithgareddau troseddol, gyda 25% yn datgan nad oedd dioddefwr i'w trosedd.²² Mewn rhai achosion, mae unigolion yn dehongli eu bod yn darparu gwasanaeth cyfreithlon. Er enghraifft, mae rhai troseddwy seiber yn credu y dylai mynediad i gyfrifiaduron fod yn anghyfyngedig ac y dylai pob darn o wybodaeth fod ar gael i bawb.²³



¹⁶ Van Koppen, M. V. (2012) Involvement Mechanisms for Organized Crime. Nododd yr awdur garchardai fel llwybr wrth ddadansoddi data empirig ar 15 o grwpiau troseddol (300 o droseddwr) yn yr Iseldiroedd

¹⁷ Liz Hales a Loraine Gelsthorpe (2012) The Criminalisation of Migrant Women

¹⁸ Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2014) Asesiad Strategol Cenedlaethol

<http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/publications/207-nca-strategic-assessment-of-serious-and-organised-crime/file>

¹⁹ Y Swyddfa Gartref (2014) Modern Slavery Strategy

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/383764/Modern_Slavery_Strategy_FINAL_DEC2015.pdf

²⁰ Farrington, D. P. Gallagher, B. a Morley, L. et al. (1986) Unemployment, School Leaving, and Crime. Also Farrington, D. P. a West, D. J. (1995) Effects of Marriage, Separation, and Children on Offending by Adult Males

Anawsterau Ariannol



2.30 Yn aml, yr ysgogiad dros droseddau difrifol a chyfundrefnol yw enillion ariannol, er nid bob tro. Gall unigolion gael eu denu i droseddu i gaffael arian oherwydd eu sefyllfa gymdeithasol ac ariannol. Cefnogir hyn gan ymchwil sy'n awgrymu bod unigolion o ardaloedd o amddifadedd yn fwy agored i gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol.²⁴

2.31 Nododd adolygiad tystiolaeth blaenorol gan y Swyddfa Gartref ystod o ffactorau a all annog cynhwysiant pobl ifanc mewn troseddolrwydd, yn cynnwys yr angen am wobrwyo materol ar unwaith ac absenoldeb ffyrdd eraill o'i sicrhau.²⁵ Gall trachwant a dibyniaeth ysgogi unigolion, pan ddehonglir bod yr enillion yn drech na'r risgiau. Gallai hyn arwain at unigolion yn parhau yn eu hymddygiad troseddol er nad ydynt bellach angen arian i fodoli.

Pŵer




2.32 Mae rhai pobl yn ymuno â grŵp troseddau cyfundrefnol i ddarparu teimlad o statws a rhagoriaeth. Pan fydd unigolion yn teimlo eu bod wedi colli eu grym, gall aelodaeth o grŵp troseddau cyfundrefnol ddarparu statws cydadferol. Gallai'r angen am bŵer fod yn gysylltiedig i amlygiad i drais, naill ai trwy fagwraeth unigolyn neu trwy gyflogaeth. Mae pŵer a statws hefyd yn ffactorau a arddangosir mewn troseddau twyll ariannol difrifol megis camddefnydd o'r farchnad neu lwgrwobrwyath.

'David'

Roedd 'David' yn weldiwr galluog ac yn ŵr busnes llwyddiannus yn ei bumdegau cynnar. Aeth David i **anawsterau ariannol** o ganlyniad i'r dirwasgiad economaidd. Trwy gydnabod, daeth David i gysylltiad â grŵp troseddau cyfundrefnol a defnyddiodd ei alluoedd peirianeg fel **sgiliau troseddol** i drosi arfau wedi eu datgomisiynu i arfau dichonol. Fe drosodd o leiaf 39 o arfau, gan farnu yn ôl y deunydd balistig a adferwyd yn y gweithdy wedi ei arestio. Dedfrydwyd David i 17 mlynedd o garchar.

²¹ Van Koppen, M. V. a De Poot, C. J. (2013) The Truck Driver who Bought a Café: Offenders on their Involvement Mechanisms for Organized Crime

Ffigur 5: Ilwybrau i rwydwaith troseddau difrifol a chyfundrefnol



Ymyraethau

3.1 Nid oes un model ymyraethau sengl, cenedlaethol i bobl sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol.²⁶ Mae yna ystod o raglenni lleol a chenedlaethol presennol y gall partneriaid gyfeirio unigolion iddynt, gan gynnwys rhaglenni gangiau, rhaglenni Teuluoedd Cythryblus, dulliau rheoli troseddwr am oes, a'r rhaglen Sianel (ble mae'r unigolyn hefyd mewn perygl o gael ei ddenu i derfysgaeth).

3.2 Dylid teilwra ymyraethau priodol i'r boblogaeth o droseddwr lleol sy'n codi. Gall rhai ymyraethau ddigwydd gyda throseddwr hysbys – tra bydd eraill yn gallu digwydd gydag unigolion dan risg heb unrhyw hanes troseddu blaenorol. Bydd effeithlonrwydd ymyraethau yn amrywio yn ddibynnol ar y math o drosedd ac oed a demograffeg gymdeithasol troseddwr. Rydym yn dal i gynyddu ein dealltwriaeth o ran 'beth sy'n gweithio' o ran newid ymddygiad unigolion ar ffiniau troseddau difrifol a chyfundrefnol, a bwriadwn gefnogi partneriaid lleol wrth i'n dealltwriaeth ddatblygu.²⁷

3.3 Bydd ymyraethau effeithiol yn galw am rannu gwybodaeth rhwng partneriaid. Mae agweddau cyfrinachedd rhannu gwybodaeth yn destun prawf datgeliad lles y cyhoedd gyda rhai partneriaid (er enghraifft lechyd), ble gellir hepgor cydsyniad i atal trosedd neu ble gallai trydydd parti fod dan risg o droseddau difrifol. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cefnogaeth i bartneriaid ar ddulliau rhannu gwybodaeth.

Ymyraethau Presennol

3.4 Ceir trefniadau Rheoli Integredig Troseddwr (IOM) sy'n nodi, rheoli ac arallgyfeirio troseddwr o amrywiaeth eang o droseddolrwydd ym mhob ardal heddlu. Gallai trefniadau IOM neu gynlluniau tebyg – megis y dull Troseddwr Grŵp Difrifol sy'n canolbwyntio ar gangiau – fod yn ddefnyddiol i dargedu troseddwr sy'n gysylltiedig ar ffiniau grwpiau troseddau cyfundrefnol, neu droseddwr y mae eu llwybr troseddu yn awgrymu eu bod mewn perygl o ymwneud â mathau mwy difrifol a chyfundrefnol o droseddu.

3.5 Mae ymyraethau penodol i bobl ifanc, p'un a ydynt yn gynlluniau Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid neu raglenni lleol sy'n cael eu rhedeg gan yr heddlu ac Awdurdodau Lleol, yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu denu i gangiau (er enghraifft, y 'Rhaglen Llwybrau Allan'²⁸). Mae yna 43 o ardaloedd Awdurdod Lleol yn derbyn cefnogaeth atodol dan y Rhaglen Terfynu Trais Gangiau ac Ieuenctid. Mae nifer o'r ardaloedd hyn wedi datblygu dulliau arloesol i nodi ac ymateb i drais gangiau ac ieuenctid, yn cynnwys trwy waith ymyraethau cynnar.

²² Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013) Transforming Rehabilitation: a Summary of Evidence on Reducing Offending <http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/publications/207-nca-strategic-assessment-of-serious-and-organised-crime/file>

²³ Van Koppen, M. V. et. al. (2010) Criminal Trajectories in Organised Crime

²⁴ Kleemans, E. R. a De Poot, C. J. (2008) Criminal Careers in Organized Crime and Social Opportunity Structure

²⁵ Ed Comms (2009) Drivers of Crime and Anti-Social Behaviour among Young People. Adolygiad tystiolaeth (heb ei gyhoeddi)

²⁶ Er enghraifft, mentrau cyfatebol i'r rhaglen Sianel, sy'n rhan o Atal gwrthderfysgaeth, y mae'r manylion ar gael ar https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118194/channel-guidance.pdf

‘Connor’

Roedd ‘Connor’ dan ddylanwad mawr gangiau ac roedd ganddo gollfarnau troseddol am gyflenwi cyffuriau yn ifanc. Cafodd ei gyfeirio at y ‘Rhaglen Llwybrau Allan’, menter ymyrraeth ar gyfer aelodau gangiau a ddatblygwyd gan un o’r ardaloedd blaenoriaeth gangiau gyda chefnogaeth y **Rhaglen Terfynu Trais Gangiau ac Ieuencid**.

Gweithiodd mentor gyda Connor i drechu ei heriau a darparu hyfforddwr i fagu hyder Connor wrth iddo ymgeisio am swyddi a pharatoi ar gyfer amgylchedd gwaith. Fe alluogodd yr ymyrraeth i Connor sicrhau cymwysterau a chyflogaeth llawn amser. Mae Connor wedi ei ddenu i ffwrdd o ffordd o fyw gangiau a allai wedi arwain at droseddolrwydd mwy difrifol a chyfundrefnol.

3.6 Efallai y bydd y dull Teuluoedd Cythryblus yn addas os oes perygl y bydd aelod o’r teulu (rhiant neu blentyn) yn cael ei ddenu i droseddau cyfundrefnol. Mae’r rhaglen estynedig yn cynnwys rhieni yn cyflawni – neu mewn perygl o gyflawni – troseddau, yn ogystal â phlant a phobl ifanc. Mae’r rhaglen yn caniatáu ar gyfer delio â throseddau posibl unigolyn trwy ymyrraeth teulu cyfan.²⁹

3.7 Mae ysgolion a chyfleusterau addysg uwch yn bartneriaid allweddol o ran nodi unigolion sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol ble mae ffactorau yn dod i’r amlwg yn gynnar. Mae ysgolion yn chwarae rhan ganolog ym mywydau plant a phobl ifanc trwy eu blynyddoedd datblygiad. Efallai y bydd athrawon a staff yn ymwybodol o ymddygiad problemus cynnar, perthnasau cyfoedion negyddol a chefnidiroedd teuluol camweithredol unigolion. Mae gan nifer o ysgolion eisoes strategaethau ymyrraeth effeithiol ar waith, yn seiliedig ar drefniadau statudol (megis diffyg presenoldeb), ac maent yn gweithio’n agos gyda phartneriaid lleol, fel yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol, i gyflawni’r rhain.

3.8 Mae elusennau a sefydliadau sector menter wirfoddol yn darparu ystod eang o ymyrraethau. Er enghraifft, mae Cymorth i Ddiodefwyr wedi sefydlu Cwrs Ymwybyddiaeth Dioddefwyr, cwrs addysg ac adsefydlu i oedolion, sy’n ceisio herio agweddau ‘ffafriol i drosedd’ troseddwy trwy ganolbwyntio ar effaith eu trosedd ar ddiodefwyr. Dywed Cymorth i Ddiodefwyr bod 88% o’r rhai a fynychodd wedi datgan i’r cwrs eu helpu i feddwl am eu hymddygiad ac i 78% ddatgan y byddent yn sicr yn newid eu hymddygiad o ganlyniad i’r cwrs.³⁰

‘Daniel’

Roedd ‘Daniel’ yn byw mewn ardal gyda lefelau uchel o droseddu, camddeffnydd o sylweddau a chyflogaeth isel. Roedd yn gysylltiedig â gang stryd trefol a gyfrannodd at ei eithrio o’r ysgol uwchradd. Datblygodd troseddolrwydd Daniel i ladrata cerbydau a chafodd ei arestio oherwydd hynny. Roedd ei frawd hŷn wedi cael ei arestio’n flaenorol am droseddau cyffuriau ac felly roedd pryderon fod Daniel yn dilyn yr un llwybr o droseddolrwydd.

Trwy’r **rhaglen Teuluoedd Cythryblus**, dechreuodd gweithiwr allweddol weithio gyda Daniel a’i deulu i ddelio â’i ymddygiad troseddol tra’n cefnogi ei rieni i sefydlu ffiniau a gwella eu technegau rhianta. Yn dilyn hyn fe symudodd Daniel a’i deulu o’r ardal, gyda chymorth gan eu landlord cofrestredig lleol. Galluogodd hyn i Daniel greu cysylltiadau gyda chyfoedion mwy positif. Mae ei deulu cyfan yn elwa o fanteision y cymorth dwys a dderbyniont ac mae Daniel nawr yn mynychu’r ysgol llawn amser gyda gwelliannau arwyddocaol yn ei ymddygiad.

²⁷ Mae’r Swyddfa Gartref yn cefnogi gwaith academaidd ar asesu ymyrraethau yn unol â chanllaw Swyddfa’r Cabinet (2014) What Works Evidence for Decision Makers ar gael o https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/378038/What_works_evidence_for_decision_makers.pdf

²⁸ Cynhaliwyd y Rhaglen Pathways Out gan Gyngor Derby a’r Enthusiasm Trust. Fe’i hariannwyd gan Raglen Terfynu Trais Gangiau ac Ieuencid y Swyddfa Gartref

'Paige'

Roedd 'Paige', mam ifanc mewn anawsterau ariannol, wedi ei harestio am werthu cannabis i aelodau o'r teulu. Cafodd Rybudd Amodol gyda'r gofyniad i fynychu Cwrs Ymwybyddiaeth Dioddefwyr addysgol ac adferol dan arweiniad yr **elusen Cymorth i Ddioddefwyr**. Diolch i'r cwrs roedd Paige yn gallu gwerthfawrogi'r goblygiadau sydd ynghlwm i'w hymddygiad troseddol, yr effaith ar ddioddefwyr, y gymuned ehangach a'i theulu. Fe heriodd yr ymyraeth agweddau 'ffafriol i drosedd' Paige, sydd wedi lleihau ei risg o aildroseddu a symud ymlaen i droseddau cyfundrefnol.

3.9 Gall fod yn briodol i gyfeirio unigolion at ymyraethau Sianel ble mae perygl y bydd yr unigolyn yn cael ei ddenu i derfysgaeth. Mae yna orgyffwrdd rhwng rhai ffactorau risg sy'n denu unigolion i derfysgaeth a throseddau difrifol a chyfundrefnol (er enghraifft, ffactorau yn ymwneud â materion hunaniaeth, megis yr angen i berthyn, a phobl ifanc gyda phroblemau chwalfa deuluol). Mae rhai aelodau o gangiau wedi cael ymyraethau Sianel oherwydd yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o gael eu dylanwadu gan grwpiau eithafol. Mae rhai unigolion sydd wedi eu hymchwilio am droseddau terfysgaeth wedi eu carcharu am droseddau, ac mae gwybodaeth gorfodi'r gyfraith wedi nodi rhai synergeddau rhwng actorion troseddol terfysgol, gangiau a chyfundrefnol, o ran pobl, lleoliadau a logisteg.

3.10 Efallai yr hoffai ardaloedd lleol gyflawni adolygiad o'r ymyraethau presennol sydd ar waith, i sicrhau bod gweithgaredd yn bodloni'r anghenion Atal a nodwyd yn eu Proffil Lleol troseddau difrifol a chyfundrefnol.

Datblygu Ymagweddau Newydd

3.11 Ble mae ardaloedd lleol yn nodi bylchau yn eu hymgysylltu gyda'r boblogaeth mewn perygl gellir profi dulliau newydd.

3.12 Ymysg y prosiectau presennol mae ardaloedd yn eu profi gydag unigolion mewn perygl o ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol mae:

- mentora cyfoedion i'r rhai a nodir i fod yn ymwneud ar ffiniau troseddau difrifol a chyfundrefnol;
- ymgyrchoedd addysgol ac ymwybyddiaeth a rhaglenni allgymorth wedi eu targedu at unigolion mewn perygl;
- gwaith wedi ei dargedu'n benodol at fenywod a merched i'w hatal rhag troseddau cyfundrefnol; a
- chynlluniau peilot wedi eu targedu ar droseddau sy'n edrych ar ddelweddau anwedus o blant rhag troseddau cyswllt.

3.13 Bydd dysgu o'r cynlluniau peilot hyn yn hysbysu syniadau yn y dyfodol ar lwybrau troseddau difrifol a chyfundrefnol ac ymyraethau Atal effeithiol. Bwriadwn rannu arfer da gyda rhanddeiliaid.

²⁹ Ceir gwybodaeth ar y rhaglen Teuluoedd Cythryblus yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/66113/121214_Working_with_troubled_families_FINAL_v2.pdf

³⁰ Ystadegau gan Gymorth i Ddioddefwyr. www.victimsupport.org.uk

Casgliadau

4.1 Mae defnyddio ymyraethau i stopio pobl rhag cael eu denu i wahanol fathau o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn rhan allweddol o Atal. Mae'r llwybrau i droseddau difrifol a chyfundrefnol yn amrywiol a chymhleth. Mae hyn yn faes newydd a datblygol a byddwn yn parhau i gynyddu ein dealltwriaeth a diweddarau ein canllaw wrth i'n dealltwriaeth ddwysau.

4.2 Mae lleihau'r nifer o unigolion sy'n cael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol yn allweddol i leihau'r bygythiad o droseddau difrifol a chyfundrefnol.

4.3 Byddwn yn cefnogi partneriaid lleol i:

- wella eu dealltwriaeth o lwybrau troseddau cyfundrefnol lleol i nodi unigolion i'w cyfeirio ymlaen i raglenni ac ymyraethau priodol;
- ystyried sut gall ymyraethau presennol neu newydd atal unigolion rhag cael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol; a
- cynnwys materion Atal yn y gwaith o gynhyrchu a chyflawni Proffiliau Lleol troseddau difrifol a chyfundrefnol.

4.4 Mae'r ddogfen hon yn fan cychwyn i nodi'r rhai sydd mewn perygl ac i ddatblygu mentrau Atal penodol i gefnogi a llesteirio cynhwysiant yn y dyfodol.

4.5 Os oes gennych chi enghreifftiau o arfer da wrth weithio gyda'r rhai mewn perygl o neu sydd yn ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol, byddem yn croesawu cyfraniadau i: SOCPprevent@homeoffice.x.gsi.gov.uk

Atodiad: Rhaglenni Ymyrraeth

5.1 Mae'r canlynol yn grynodedb o raglenni ymyrraeth y llywodraeth. Bydd nifer o raglenni eraill priodol (nad ydynt wedi eu rhestru) yn cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol, heddluoedd a sefydliadau sector gwirfoddol, elusennol a menter gymdeithasol.

Teuluoedd Cythryblus

5.2 Lanswyd yn 2011, mae'r rhaglen yn ceisio trawsnewid bywydau teuluoedd yn Lloegr sydd â phroblemau difrifol – yn cynnwys rhieni nad ydynt yn gweithio; camddefnydd o gyffuriau ac alcohol; plant yn triwanta yn rheolaidd neu ddim yn yr ysgol – ac sy'n achosi problemau difrifol, fel cael eu dal yn troseddu neu'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn Awst 2014, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r rhaglen yn cael ei ehangu i weithio gydag Awdurdodau Lleol a'u partneriaid i helpu hyd at 400,000 o deuluoedd cythryblus atodol gydag ystod ehangach o broblemau i sicrhau cynnydd arwyddocaol a chynaliadwy yn erbyn y problemau hynny erbyn 2020. Mae'r Swyddfa Gartref yn cydweithio gyda'r tîm Teuluoedd Cythryblus ar ymyrraethau priodol ble mae perygl y bydd unigolion yn cael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol.

5.3 Ceir manylion ar y rhaglen Teuluoedd Cythryblus yma https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/66113/121214_Working_with_troubled_families_FINAL_v2.pdf

Rhaglen Terfynu Trais Gangiau ac Ieuencid

5.4 Lanswyd yn 2011, y rhaglen Terfynu Trais Gangiau ac Ieuencid yw'r ymagwedd trawslywodraethol cyntaf erioed ar gangiau, gan weithio mewn modd targedig, cefnogol gydag ardaloedd lleol. Darperir cefnogaeth gan rwydwaith o dros 80 o bobl gyda phrofiad rheng flaen o ddelio â gangiau. Mae'r rhaglen wedi gweithio gyda 33 o ardaloedd lleol ar draws y wlad sy'n wynebu rhai o'r problemau mwyaf a datblygol gyda thrais gangiau ac ieuencid. Cyflwynwyd 10 ardal

arall yn 2014, gan ddod â'r cyfanswm i 43. Yr ardaloedd newydd yw'r rhai sy'n wynebu problemau datblygol gyda gangiau stryd.

5.5 Mae'r Adroddiad Blynyddol Terfynu Trais Gangiau ac Ieuencid ar gael yma <https://www.gov.uk/search?q=ending+gang+and+youth+violence>

Rhaglen Sianel

5.6 Mae Sianel yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion rhag cael eu denu i gyflawni gweithgaredd yn ymwneud â therfysgaeth. Mae Sianel yn defnyddio cydweithrediad presennol rhwng Awdurdodau Lleol, partneriaid statudol (megis sectorau addysg ac iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau plant ac ieuencid a gwasanaethau rheoli troseddwyr), yr heddlu a'r gymuned leoli nodi unigolion sydd mewn perygl a datblygu'r cynllun cefnogaeth mwyaf priodol i'r unigolion dan sylw.

5.7 Mae'r canllaw Sianel (2012) ar gael yma https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118194/channel-guidance.pdf

Trefniadau Rheoli Troseddwyr Integredig

5.8 Mae Trefniadau Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) yn galluogi asiantau lleol a phartner i sicrhau bod troseddwyr sy'n achosi'r difrod a niwed mwyaf yn lleol yn cael eu rheoli mewn modd cydlynol. Mae dulliau IOM lleol yn amrywio o ardal i ardal, gan adlewyrchu blaenoriaethau lleol, ond mae egwyddorion allweddol cyffredin yn cynnwys: dull datrys problemau amlasiantaethol (asiantau cyfiawnder troseddol ac nad ydynt yn gyfiawnder troseddol); darparu ymateb lleol i broblemau lleol; a darparu dealltwriaeth glir i droseddwyr o beth a ddisgwylir ganddynt.

5.9 Ceir rhagor o wybodaeth am IOM ar <https://www.gov.uk/intergrated-offender-management-iom>



© Hawlfraint y Goron 2015

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddalwyr yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu